**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**31 Ionawr 2025**

1100 – 1500

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd) (JP), Heather Clash (HC), Alexia Course (AC), Marie Daly (MD), Jan Chaudhry Van der Velde (JC), Marie Daly (MD), a Julian Edwards (JE).

**Hefyd yn bresennol**
Nick Millington (NM), Sam Hadley (SH), Jeremy Morgan (JM) a Stephen Morgan (SM) (Cofnodion).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Dim.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau yn dal yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda. Cyfarwyddwyr TfW Fibre Ltd yw Heather Clash, Alexia Course a James Price.

**2. Sylw i ddiogelwch**
Trafododd y Bwrdd leihau'r problemau i deithwyr drwy waith Ymgyrch Genesis a sut gellir rhoi'r hyn a ddysgir ar waith ar ddiwrnodau heb fod yn ddiwrnodau digwyddiadau i leihau achosion ac anafiadau. Cytunodd y Bwrdd y dylid rhannu'r hyn a ddysgwyd o Ymgyrch Genesis â chwmnïau trên eraill er mwyn rhannu arferion gorau a lleihau digwyddiadau.

**GWEITHREDU – JC i rannu'r hyn a ddysgwyd o Ymgyrch Genesis â chwmnïau trên eraill**

**3. Sylw i Gwsmeriaid**
Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu gwasanaethau talu wrth fynd. Nododd y Bwrdd archwiliad o gynigion cwsmeriaid a gwaith parhaus gyda thimau masnachol a marchnata i hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith cwsmeriaid, a gwell cyfleoedd i gyfathrebu â chwsmeriaid ynghylch sut i ddefnyddio'r system.
Trafododd y Bwrdd leoliad Peiriannau Dilysu ar y Platfform, gan nodi bod cwsmeriaid yn gorfod dod i mewn ac allan o orsaf Caerdydd Canolog wrth barhau â'u taith ar wasanaethau nad ydynt yn rhai TrC. Hysbyswyd y Bwrdd fod gwaith yn mynd rhagddo i unioni'r sefyllfa hon.

**Gweithredu – Marie Daly/Alexia Course i roi diweddariad cyfnodol i'r Bwrdd ar y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â Tapio ar y Dechrau a'r Diwedd wrth drosglwyddo i wasanaethau eraill yng ngorsaf Caerdydd Canolog.**

Trafododd y Bwrdd bryderon ynghylch taliadau dal wrth ddefnyddio Talu wrth Fynd a'r effaith y gall hyn ei chael ar gwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol, gan nodi achosion lle nad yw tapio ar y dechrau [redacted] Dywedwyd wrth y Bwrdd fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dulliau cyfathrebu gwell â chwsmeriaid pan nad yw systemau'n gweithio. Cytunodd y Bwrdd, os oes methiant ar y system Talu wrth Fynd, y dylid rhoi ad-daliad yn syth ac yna gwneud gwaith i gywiro'r sefyllfa.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 3 Ionawr 2025. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys:

- Effaith stormydd ar elw a cholled a gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd â Network Rail i ailagor llinellau cyn gynted â phosibl. Rhoddodd NR y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y camau sy'n cael eu cymryd gan y diwydiant rheilffyrdd ar raddfa genedlaethol i wella cadernid y rhwydwaith. **GWEITHREDU – NM i roi trosolwg o gamau gweithredu ehangach y diwydiant rheilffyrdd i wella cadernid y rhwydwaith yn genedlaethol ac asesiad ôl-weithredol o ddigwyddiadau stormydd blaenorol, gan nodi a yw'r cynlluniau presennol yn briodol ar gyfer stormydd yn y dyfodol.**
- Yr angen am drafodaeth bellach ar gynlluniau strategol newid yn yr hinsawdd ac ystyried cynllunio ar gyfer digwyddiadau stormydd mwy rheolaidd.
- Cyflwyno newidiadau i amserlen Rhagfyr 2024. Nododd y Bwrdd effaith gadarnhaol llai o gysylltu a datgysylltu yng Nghaerdydd.
- Mae'r symudiadau yn Nhreganna bellach yn fwy dwys ac mae adolygiad o weithdrefnau parcio yn parhau gan na all cerbydau fynd ar y brif reilffordd.
- [redacted]
- Trafododd y Bwrdd droi teiars drwy gydol hydref 2024, gan nodi bod hyn yn cywiro'r broblem o drenau'n ciwio am wasanaeth drwy'r gaeaf. Nododd y Bwrdd y bydd yr arfer hwn yn parhau yn 2025 a bod disgwyl rhagor o welliannau pan fydd turn Caergybi yn weithredol.
- Nododd y Bwrdd effeithiau cadarnhaol cyflwyno trenau Dosbarth 756 ar wasanaethau TAM, gyda phum uned bellach yn weithredol a disgwyl i 14 fod mewn gwasanaeth i redeg holl wasanaethau TAM. [redacted]

[redacted]

- Trafododd y Bwrdd achosion o ganslo ar Linellau Craidd y Cymoedd, gan nodi'r lefel sylweddol o newidiadau i drenau ar y diwrnod yn dilyn unrhyw ddigwyddiad sy'n tarfu i ddod â gwasanaethau'n ôl i drefn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gael y cydbwysedd rhwng delio â gwasanaethau sy'n rhedeg yn hwyr ac adfer gwasanaethau, ynghyd â chyfradd canslo uchel sy'n arwain at anhwylustod i deithwyr. Trafododd y Bwrdd achosion o darfu, gan gynnwys tresmasu, argaeledd cerbydau a methiannau signal.
- Nododd y Bwrdd ddigwyddiad diweddar lle'r oedd uned wedi taro troli. Bwriedir defnyddio dronau i gynyddu gwelededd y rhwydwaith gyda'r nod o leihau digwyddiadau tebyg.
- Trafododd y Bwrdd y polisi tresmasu presennol a'r camau a gymerir pan fydd digwyddiadau'n codi, gan gynnwys tarfu ar wasanaethau.
- Trafododd y Bwrdd ddata a ryddhawyd yn ddiweddar gan Transport Focus am fodlonrwydd cwsmeriaid, gan nodi'r perfformiad gwell dros y 18 mis diwethaf a'r ffaith bod cerbydau newydd yn dal i gael eu cyflwyno er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau parhaus.
- Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda chyngor cwmni'r gyrwyr a'r goruchwylwyr ar symud criwiau trenau Llinellau Craidd y Cymoedd i ddepo Ffynnon Taf nawr bod y cyfleusterau'n barod. Nododd y Bwrdd ddatblygiad strwythur dros dro yn Barry Down Sidings i ddarparu mynediad lefel uchel i dechnegwyr Stadler at drenau Dosbarth 756, gan ryddhau'r pwysau oddi ar Ddepo Treganna.
- [redacted]

  **GWEITHREDU – JC i asesu metrigau sy'n cael eu defnyddio mewn adroddiadau ORR ac effaith dileu elfennau 'Metro' metrigau Llinellau Craidd y Cymoedd ar y safleoedd cyffredinol.**
- Trafododd y Bwrdd newidiadau posibl i'r strategaeth farchnata strategol.

**5.1 Adroddiad Strategol ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol**

Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn cynnwys:

- cyfraddau canslo ar Linellau Craidd y Cymoedd a safon coch dilynol;
- gwelliannau drwy gyfnod 12 wrth i broblemau sy'n ymwneud â cherbydau gael eu datrys;
- ystyried buddsoddiad mewn diogelwch ar draws y rhwydwaith ac a oes achos busnes dros gynyddu buddsoddiad; ac
- euogfarnau am dresmasu ar y rhwydwaith ac effeithiolrwydd ymgyrchoedd blaenorol i leihau digwyddiadau.

**5.2 Adroddiad Strategol ar Iechyd, Diogelwch, yr Amgylchedd a Chadernid**

Trafododd y Bwrdd y risg o drais tuag at fenywod a merched yng nghyd-destun annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy rheolaidd. [redacted]

[redacted]

- [redacted]

Trafododd y Bwrdd faterion yn ymwneud ag adrodd hefyd a nododd ei bod yn anodd cyfuno ystadegau Heddlu Trafnidiaeth Prydain gan fod pobl yn aml yn adrodd mewn gorsafoedd mwy, ond digwyddiadau'n aml yn digwydd mewn gorsafoedd lleol llai.

**GWEITHREDU – Seamus Scallon i adolygu adroddiadau ar ddiogelwch menywod a merched, rhoi trosolwg i'r Bwrdd ar anghenion hyfforddi a sicrhau bod digon o gyfleoedd adrodd ar waith.**

**6. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**

Trafododd y Bwrdd risgiau sy'n ymwneud â gwaith trydaneiddio arfaethedig. Trafododd y Bwrdd adolygiad arfaethedig ar draws TrC o'r broses rheoli risg. Nododd y bwrdd nad yw stormydd, gan gynnwys yr effaith ar elw a cholled, yn cael sylw yn y gofrestr risg ar hyn o bryd.

**7. Adolygiad ariannol**

*Ymunodd Stephanie Raymond (SR) ac Andy Quinton (AQ) â'r cyfarfod.*

Trafododd y Bwrdd yr adroddiad cyllid ar gyfer cyfnod 09 y rheilffyrdd, gan nodi'r gofynion cyllidebol yn erbyn y rhagolygon, ffigurau refeniw teithwyr, ac effaith stormydd diweddar a thywydd eithafol. Cafodd y Bwrdd wybodaeth am ddatblygiadau wrth lunio safbwynt ariannol aml-flwyddyn.

[redacted]

**7.1 Cyllideb TrC ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2026**

Nododd a thrafododd y Bwrdd Gyllideb Blwyddyn Ariannol 2026.

*Diolchodd y Bwrdd i SR ac AQ a gadawsant y cyfarfod.*

**8. Diweddariad Masnachol**

*Ymunodd Chris Williams (CW) â'r cyfarfod.*

[redacted] Cafodd y Bwrdd wybod am effaith stormydd ar refeniw ac ystyriodd gynlluniau adfer refeniw mewnol, gan gynnwys cynyddu gwarchodaeth.

**Gweithredu – CW i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun adennill refeniw**

Trafododd y Bwrdd gapasiti gweithredu ar benwythnosau ac effaith gwasanaethau sy'n cynyddu refeniw, gan gynnwys cyfleoedd posibl i gynyddu gwasanaethau ar ddydd Sul.

**Gweithredu – CW i edrych yn fanwl ar gynhyrchu refeniw/cynyddu cymhorthdal ar gyfer teithio ar benwythnosau**

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno Talu wrth Fynd, gan nodi cynnydd yn nifer y staff ar gyfer monitro Peiriannau Dilysu ar y Platfform (PVAL). [redacted]

**Gweithredu – CW i adolygu adroddiadau byw ar gyfer Peiriannau Dilysu ar y Platfform sy'n ddiffygiol.**

*Diolchodd y Bwrdd i CW a gadawodd y cyfarfod.*

**8.1 Tocynnau ar gyfer Digwyddiadau**

Trafododd y Bwrdd gynyddu refeniw o docynnau digwyddiadau [redacted]

**Gweithredu – AC i drafod sut y gellir gwneud rhagor o welliannau i docynnau ar gyfer digwyddiadau a refeniw**

**9. Unrhyw Fater Arall**

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â’r cyfarfod i ben.